OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 681 (Cy.100)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2011

Gwnaed - - - -	*8 Mawrth 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Mawrth 2011*
Yn dod i rym - -	*11 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 11 Ebrill 2011.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 (**2**).

Diwygio Rheoliadau 2007

3.—(1) Diwygir Rheoliadau 2007 fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 1 (addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yn yr addasiad o reoliad 45 (capital limit), yn lle "£22,000" rhodder "£22,500".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1480 (Cy.153). Mae diwygiadau eraill ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.